CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyfarfod o'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

Nos Lun, 7 Chwefror
6.30 yh

Cyfarfod Rhithiol (Zoom)

## Rhaglen

1 - Croeso ac Ymddiheuriadau

2 - Cofnodion

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2021 – ynghlwm.

3 - Cynigion Cyllidol 2022 i 2023

Ystyried cynigion cyllidol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith – manylion ar y ddolen ganlynol:

# Town and Community Councils Liaison Forum Meeting

Monday, 7 February 2022
6.30 pm

Virtual Meeting (Zoom)

## Agenda

1 - Welcome and Apologies

2 - Minutes

Confirmation of the minutes of the meeting held on 29 September 2021 – attached.

3 - Budget Proposals 2022 to 2023

To consider the Executive's initial budget proposals – details on the following link:

Cymraeg:
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau/Ymgynghoriadau-cyfredol/Cynigion-cyllidol-2022-i-2023-ymgynghoriad.aspx

English:
https://www.anglesey.gov.uk/en/Get-involved/Consultations/Current-consultations/Budget-proposals-2022-to-2023-consultation.aspx

4 – Unrhyw fater arall

4 – Any other business

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar nos Fercher, 29 Medi 2021
am 6.30 yh

**Presennol:**

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng Rhian Jones | Biwmares |
| Alun Foulkes (Clerc) | Bodorgan; Cwm Cadnant; Llanfihangel Ysgeifiog; Llangoed |
| Cyng Ann Kennedy | Caergybi |
| Cyng Eurfryn Davies | Cwm Cadnant |
| Geraint Parry (Clerc) | Llanddona |
| Cyng Delyth Owen | Llanfaelog |
| Cyng Ifor Gruffydd | Llanfairpwll |
| Cyng Celfyn Furlong | Llanfair yn Neubwll |
| Cyng Einion Williams | Llanfihangel Ysgeifiog |
| Sydna Roberts (Clerc) | Llannerch-y-medd |
| Cyng A W Jones | Mechell |
| Cyng Alun Jones | Penmynydd |
| Cyng Ella Fisk | Porthaethwy |
| Cyng Keith Roberts | Trearddur |
| Cyng Bill Rowlands | Trearddur |
| Cyng Gordon Browne | Y Fali |
| Cyng Rhodri Williams | |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Cyng Llinos Medi | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Cyng Alun Mummery | Deilydd Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau |
| Cyng R G Parry OBE | Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| Cyng Kenneth P Hughes | Ardal Etholiadol Talybolion |
| Cyng Gwilym O Jones | Ardal Etholiadol Llifon |
| Cyng Trefor Lloyd Hughes MBE | Ardal Etholiadol Ynys Gybi |
| Dylan Williams | Dirprwy Brif Weithredwr |
| Ned Michael | Pennaeth Gwasanaethau Tai (eitem 3) |
| Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Elliw Llyr | Rheolwr Gwasanaethau Tai - Strategaeth, Comisiynu a Pholisi (eitem 3) |
| Caron Jones | Swyddog Strategaeth Dai (eitem 3) |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |

Estynnodd aelodau'r fforwm eu dymuniadau gorau i Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn ymddeol ddiwedd y flwyddyn hon, ar ôl dros 37 mlynedd o wasanaeth.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Saesneg / This document is also available in English.

1. **Ymddiheuriadau**:

**Cynghorau Tref a Chymuned**

Llanfairpwll – Cyng Gareth Cemlyn Jones
Trewalchmai – Cyng Edna Jones; Margaret Price (Clerc)

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Aelodau: Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd); Meirion Jones (Deilydd Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant)
Swyddogion: Annwen Morgan (Prif Weithredwr); Rhys H Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc).

2. **Cofnodion**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2021 fel rhai cywir. Yn codi:

**Toiledau Cyhoeddus:** Cafwyd trafodaeth ynghylch y trefniadau rheoli presennol, gan gydnabod bod angen adolygu'r sefyllfa a datblygu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y dyfodol.

3. **Strategaeth Dai 2022-27**

Cafwyd cyflwyniad gan y Swyddog Strategaeth Dai ar Strategaeth Dai drafft a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 4 Hydref a 15 Tachwedd.

Amlinellir isod prif bwyntiau'r drafodaeth ddilynol:

- Croesawyd y strategaeth ddrafft, ac fe roddwyd canmoliaeth i'r hyn y mae swyddogion y gwasanaeth wedi'i gyflawni eisoes i wella'r ddarpariaeth dai ar yr ynys

- Bydd y strategaeth ddrafft yn sail gadarn i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol dros y tymor hir (Caergybi)

- Pwysigrwydd dysgu gwersi o'r gorffennol er mwyn gwarchod cymunedau'r dyfodol (Llanfaelog; Biwmares; Mechell)

Eglurwyd y bydd cyfle i'r cynghorau fanylu am unrhyw broblemau penodol fel rhan o'r ymgynghoriad ac annogwyd y cynghorau i gyflwyno sylwadau erbyn 15 Tachwedd.

Nodwyd y bydd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys dolen at holiadur anghenion tai, er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ar draws yr ynys. Gofynnwyd am gymorth y cynghorau tref a chymuned i hyrwyddo'r holiadur o fewn eu cymunedau.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Saesneg / This document is also available in English.

**Gweithred:** Y ddolen at y ddogfen ymgynghori i'w chylchredeg i'r holl gynghorau tref a chymuned.

**4. Adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor Sir: diweddariad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**

Nodwyd fel a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru newydd ddatgan eu bod yn derbyn cynigion terfynol y Comisiwn Ffiniau (14 ward a 35 aelod), gyda dim ond un newid o bosib (newid enw ward *Tref Cybi* i *Caergyb*i) – disgwylir cadarnhad terfynol o hyn a bydd y Gorchymyn Statudol yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

- Etholiadau i'w cynnal ar 5 Mai 2022 a phobl ifanc dros 16 oed yn cael pleidleisio yn yr etholiadau lleol am y tro cyntaf – mae'r gofrestr etholiadol yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd ac mae'r Cyngor yn hyrwyddo pwysigrwydd cofrestru ar gyfryngau cymdeithasol / gwefan y Cyngor.

- Y Cyngor Sir, ynghyd â holl gynghorau Cymru, wedi mabwysiadu datganiad i geisio cynyddu amrywiaeth ymysg ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad i fod yn gynghorwyr - bydd angen rhannu gwybodaeth yn eang am rôl cynghorydd dros y misoedd nesaf, er mwyn denu unigolion o'r grwpiau a dangynrychiolir i sefyll etholiad.

- Bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor a sesiynau rhithiol ar gyfer darpar ymgeiswyr i'w trefnu yn y flwyddyn newydd

Gofynnwyd i'r Cyngor dynnu sylw hefyd at yr etholiadau cynghorau tref a chymuned a gynhelir ar yr un diwrnod (Biwmares). Eglurwyd y byddai hynny'n digwydd fel rhan o'r sesiynau ac y dylai'r cynghorau tref a chymuned ofyn hefyd am gefnogaeth gan Un Llais Cymru.

**5. Cryfhau gorfodaeth ynghylch defnyddio cychod dŵr hamdden a phersonol yn beryglus** (eitem ar gais CC Llanfairpwll)

Cyfeiriwyd at ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal gan Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar yr uchod (gweler y ddolen isod).
[www.gov.uk/government/consultations/strengthening-enforcement-of-the-dangerous-use-of-recreational-and-personal-watercraft](http://www.gov.uk/government/consultations/strengthening-enforcement-of-the-dangerous-use-of-recreational-and-personal-watercraft)

Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb cyfreithiol dros y dŵr o amgylch Ynys Môn, gan gynnwys y Fenai, ac yn bwriadu ymateb i'r ymgynghoriad, efo mewnbwn gan arbenigwyr cyfreithiol. Yn ychwanegol, roedd arolwg o'r defnydd a wneir o gychod dŵr hamdden ar ran o'r Fenai ar y gweill ac mae'r Cyngor hefyd yn aros am adroddiad i'r ddamwain angheuol a ddigwyddodd ym mis Awst 2020.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Saesneg / This document is also available in English.

Gofynnwyd i’r Cyngor Sir gyfeirio at yr angen i gymryd camau i ddiogelu bywyd gwyllt yn ei ymateb, gan nodi nad oedd unrhyw gyfeiriad at fywyd gwyllt yn y ddeddfwriaeth gyfredol (Trearddur).

Anogwyd y Cynghorau Tref a Chymuned perthnasol i ymateb i’r ymgynghoriad sy’n cau ar 1 Tachwedd 2021 a gwahoddwyd cynghorau i gysylltu â’r Cyngor Sir os yn dymuno unrhyw wybodaeth ychwanegol neu gymorth i ymateb.

**6. Unrhyw fater arall: Ceisiadau Cynllunio**

Cyfeiriwyd at ddau fater o bryder ynghylch delio â cheisiadau cynllunio a drafodwyd mewn cyfarfod o gangen leol Un Llais Cymru yn ddiweddar:

**Y Porth Cynllunio** – nifer o broblemau technegol wrth ddefnyddio’r system, a hynny o ran amseru ac argaeledd gwybodaeth, tracio gohebiaeth ayyb

**Gweithred:** Y Gwasanaeth Cynllunio i gynnal deialog yn uniongyrchol gyda’r holl gynghorau tref a chymuned, i gael y darlun llawn o ran y problemau technegol ac ymateb yn briodol.

**Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio - hyfforddiant arbenigol**

**Gweithred:** Swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio i wneud cyflwyniad i’r Fforwm Cyswllt ar ôl etholiadau lleol 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 yh.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Saesneg / This document is also available in English.

## Town and Community Councils Liaison Forum

Minutes of the virtual meeting held on Wednesday, 29 September 2021 at 6.30 pm

**Present:**

**Town and Community Councils**

| | |
|---|---|
| Cllr Rhian Jones | Biwmares |
| Alun Foulkes (Clerk) | Bodorgan; Cwm Cadnant; Llanfihangel Ysgeifiog; Llangoed |
| Cllr Ann Kennedy | Caergybi |
| Cllr Eurfryn Davies | Cwm Cadnant |
| Geraint Parry (Clerk) | Llanddona |
| Cllr Delyth Owen | Llanfaelog |
| Cllr Ifor Gruffydd | Llanfairpwll |
| Cllr Celfyn Furlong | Llanfair yn Neubwll |
| Cllr Einion Williams | Llanfihangel Ysgeifiog |
| Sydna Roberts (Clerk) | Llannerch-y-medd |
| Cllr A W Jones | Mechell |
| Cllr Alun Jones | Penmynydd |
| Cllr Ella Fisk | Porthaethwy |
| Cllr Keith Roberts | Trearddur |
| Cllr Bill Rowlands | Trearddur |
| Cllr Gordon Browne | Y Fali |
| Cllr Rhodri Williams | |

**Isle of Anglesey County Council**

| | |
|---|---|
| Cllr Llinos Medi | Leader of the Council (Chair) |
| Cllr Alun Mummery | Housing and Supporting Communities Portfolio Holder |
| Cllr R G Parry OBE | Highways, Waste and Property Portfolio Holder |
| Cllr Kenneth P Hughes | Talybolion Electoral Area |
| Cllr Gwilym O Jones | Llifon Electoral Area |
| Cllr Trefor Lloyd Hughes MBE | Ynys Gybi Electoral Area |
| Dylan Williams | Deputy Chief Executive |
| Ned Michael | Head of Housing Services (item 3) |
| Huw Jones | Head of Democratic Services |
| Elliw Llyr | Housing Services Manager - Strategy, Commissioning and Policy (item 3) |
| Caron Jones | Housing Strategy Officer (item 3) |
| Rhian Wyn Jones | Policy Officer |

Members of the forum extended their best wishes to Huw Jones, Head of Democratic Services, who will be retiring at the end of the year, after over 37 years of service.

1. **Apologies:**

**Town and Community Councils**

Llanfairpwll – Cllr Gareth Cemlyn Jones
Trewalchmai – Cllr Edna Jones; Margaret Price (Clerk)

**Isle of Anglesey County Council**

| | |
|---|---|
| Members: | Councillors Ieuan Williams (Deputy Leader); Meirion Jones (Education, Youth, Libraries and Culture Portfolio Holder). |
| Officers: | Annwen Morgan (Chief Executive); Rhys H Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc). |

2. **Minutes**

The minutes of the virtual meeting held on 21 July 2021 were confirmed as a correct record. Matters arising:

**Public Conveniences**: A discussion took place on the current management arrangements, recognising the need to review the situation and develop a revised strategy for the future.

3. **Housing Strategy 2022-27**

A presentation was given by the Housing Strategy Officer on a draft Housing Strategy that will be subject to public consultation between 4 October and 15 November.

The main points from the following discussion are outlined below:

- The draft strategy was welcomed and officers of the service were praised for their achievements to date in improving housing provision on the island

- The draft strategy will provide a sound basis for reducing socio-economic disadvantage in the long term (Holyhead)

- The importance of learning lessons from the past in order to protect the communities of the future (Llanfaelog; Beaumaris; Mechell)

It was explained that councils will have an opportunity to provide details of any specific problems as part of the consultation and councils were encouraged to submit observations by 15 November.

It was noted that the consultation would also include a link to a questionnaire on housing needs, in an attempt to obtain a better understanding of the situation across the island. The assistance of the town and community councils was sought to promote the questionnaire within their communities.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Gymraeg / This document is also available in Welsh.

**Action:** The link to the consultation document to be circulated to all town and community councils.

**4. Review of the Council's electoral arrangements: update from the Head of Democratic Services**

It was noted as follows:

- Recent announcement by the Welsh Government that the Boundary Commission's final proposals have been accepted (14 wards and 35 members), with only one possible change (one ward name change - *Tref Cybi* to *Caergybi*) – final confirmation of this is awaited and the Statutory Order is expected to be published shortly.

- Elections to be held on 5 May 2022 and young people over 16 years old will be able to vote in the local elections for the first time – the electoral register is currently being updated and the Council is promoting the importance of registering on social media / the Council's website.

- The County Council, along with all councils in Wales, has adopted a declaration to increase diversity amongst candidates standing to be elected councillors – information about the role of councillors will need to be shared widely over the coming months to attract individuals from under-represented groups to stand for election.

- Information will be available on the Council's website and virtual sessions for prospective candidates will be arranged in the new year.

The Council was asked to also draw attention to the town and community council elections that will be held on the same day (Beaumaris). It was explained that this would be happening as part of the sessions and that town and community councils should also ask for support from One Voice Wales.

**5. Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft** (item requested by Llanfairpwll CC)

Reference was mae to the current consultation by the UK Government's Department for Transport on the above (see link below).

www.gov.uk/government/consultations/strengthening-enforcement-of-the-dangerous-use-of-recreational-and-personal-watercraft

The Deputy Chief Executive explained that the Council had a legal responsibility for the waters around the island, including the Menai Strait, and intended to respond to the consultation, with imput from legal specialists. In addition, a review of the use of recreational watercraft on a section of the Menai Strait is currently being undertaken and the Council was also awaiting a report on the fatal accident that happened in August 2020.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Gymraeg / This document is also available in Welsh.

The County Council was requested to refer to the need to take steps to safeguard wildlife in its response, noting that there was no reference whatsoever to wildlife in the current legislation (Trearddur).

Relevant Town and Community Councils were encouraged to respond to the consultation that closes on 1 November 2021 and invited councils to contact the County Council if they required any further information or assistance to prepare a response.

## 6. Any Other Business: Planning Applications

Reference was made to two issues of concern related to dealing with planning applications discussed at a recent meeting of the local branch of One Voice Wales:

**Planning Portal** – a number of technical problems when using the system, regarding timing and availability of information, tracking correspondence etc.

**Action:** The Planning Service to hold direct discussions with all town and community councils, to get the full picture of the technical problems and to respond appropriately.

**Submitting comments on planning applications – specialist training**

**Action:** Planning Services officers to deliver a presentation to the Forum after the 2022 local elections.

The meeting ended at 7.50 pm.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Gymraeg / This document is also available in Welsh.